CYTUNDEB INTERNIAETH

Mae'r cytundeb hwn yn ymdrin â'r berthynas rhwng:

1. Prifysgol De Cymru
2. [enw'r myfyriwr] sy'n astudio [teitl y cwrs]
3. [enw a chyfeiriad y cwmni], wedi'i gynrychioli gan [person cyswllt]

ac yn cychwyn ar [dyddiad cychwyn] tan [dyddiad gorffen] yn gynwysedig. Ni fydd y cytundeb hwn yn para dros ddeuddeg (12) mis. Lleoliad y myfyriwr (lle mae'n wahanol i'r cyfeiriad a roddir uchod) fydd [y lleoliad].

ERTHYGL 1: AMCANION YR INTERNIAETH

Prif nod yr interniaeth yw darparu dimensiwn ymarferol i'r addysgu a roddir gan Brifysgol De Cymru.

Amcanion yr interniaeth yw:

- [Nodwch amcanion ychwanegol]

Mae [enw'r cwmni] yn enwebu [cyswllt cwmni] fel y person sy'n gyfrifol am yr interniaeth, a bydd ei rôl yn cynnwys cynghori a rhoi adborth i [enw'r myfyriwr].

ERTHYGL 2: DYLETSWYDDAU'R HYFFORDDAI

Am hyd yr interniaeth, mae [enw'r myfyriwr] yn parhau i fod yn fyfyriwr sydd wedi ymrestru'n llawn ym Mhrifysgol De Cymru ac mae'n cytuno i gadw at holl Reoliadau a Rheolau'r Brifysgol a geir yn y cytundeb myfyrwyr. Yn ogystal, mae'n ofynnol [iddo/iddi] barchu pob un o'r rheoliadau lleol [enw'r cwmni]. Ni fydd Prifysgol De Cymru yn atebol mewn unrhyw ffordd am weithredoedd, camgymeriadau neu hepgoriadau'r myfyriwr.

Os digwydd unrhyw dor-disgyblaeth, mae Pennaeth [enw'r cwmni] yn cadw'r hawl i derfynu'r interniaeth ar ôl rhoi gwybod i'r Partner lleoliad ym Mhrifysgol De Cymru.

ERTHYGL 3: COSTAU AMRYWIOL

Yn dilyn cytundeb rhagarweiniol rhwng [enw'r cwmni] a [enw'r myfyriwr] bydd unrhyw gostau dilynol fel rhan o weithgareddau'r myfyriwr ar ran y cwmni yn daladwy gan y cwmni, gan gynnwys unrhyw gostau hyfforddiant posibl sydd eu hangen ar yr interniaeth.

Y myfyriwr fydd yn talu'r costau am lety a bwyd.

ERTHYGL 4: YSWIRIANT

[enw'r myfyriwr] sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod/bod wedi cael yr yswiriant priodol cyn dechrau ar yr interniaeth lle nad yw'r sefydliad sy'n darparu'r interniaeth yn cynnwys yswiriant o'r fath. Bydd y cwmni yn hysbysu Prifysgol De Cymru am unrhyw ddamwain sy'n ymwneud â'r myfyriwr, ond ni fydd y Brifysgol yn atebol am unrhyw gostau sy'n deillio o'r ddamwain.

ERTHYGL 5: ADRODDIAD INTERNIAETH

Bydd [enw'r myfyriwr] yn cyflwyno adroddiad manwl i Brifysgol De Cymru sy'n cynnwys y gwaith a gwblhawyd a'r canlyniadau a gafwyd mewn perthynas ag amcanion cytunedig yr interniaethau fel y'u nodir yn Erthygl 1. uchod. Rhoddir ail gopi o'r adroddiad i [enw'r cwmni].

ERTHYGL 6: GWERTHUSIAD GAN Y PERSON SY'N GYFRIFOL AM YR INTERNIAETH

Bydd y person sy'n gyfrifol am yr interniaeth yn [enw'r cwmni] yn darparu adborth ysgrifenedig ar y gwaith a'r canlyniadau a gafwyd gan y myfyriwr.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran Prifysgol De Cymru:	Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran [enw'r cwmni]:	Llofnodwyd gan y myfyriwr:
Arweinydd Cwrs	**[Cyswllt y cwmni a theitl]**	**[Enw'r myfyriwr]**
Dyddiad:	Dyddiad:	Dyddiad:

Nodyn:

Bydd Prifysgol De Cymru yn cadw copi o'r ffurflen ar gyfer ein cofnodion.